


Canllaw am ...

**Sut i reoli eich digwyddiadau ar
arts-engine.org.uk**



Gorolwg

O Awst 2011, mae'r dull y mae arts-engine yn ymdrin â digwyddiadau ei aelodau wedi newid. Bellach, nid ydym yn bwriadu rhestru digwyddiadau rydych wedi bod ynghlwm â nhw yn y gorffennol, ond byddwn nawr yn hybu'n frwd y digwyddiadau sydd gennych i ddod yn y dyfodol. Byddwn yn gwneud hyn ar eich tudalen chi fel artist, trwy dudalen digwyddiadau penodol a chrynodeb byr o ddigwyddiadau ar brif dudalen hafan arts-engine.org.uk.

O ganlyniad i'r uwchraddio hwn, bydd angen rhagor o ddata ar gyfer y ffurflen digwyddiadau (sydd ar gael yn yr un ffurf ag o'r blaen). Felly rydym wedi paratoi'r ddogfen hon i'ch helpu i newid i'r system newydd a'i gwneud cyn hawsed â phosib a byddem yn annog holl aelodau arts-engine i ddarllen y cyfarwyddiadau isod cyn creu cofnod ar gyfer digwyddiad newydd.

Y ffurflen newydd

Our Exhibitions : General Record (Not Yet Assigned to a specific Service)

Activity Type

Events

Event (English)

Start Date (English)

End Date (English)

Email (English)

Website URL (English)

Telephone: (English)

Additional Information - PDF Documents Only (English)

Location / Nearest Town (English)

Venue (English)

Y meysydd sydd angen eu llenwi:

Digwyddiad:

Enw'r digwyddiad.

Dyddiad Cychwyn:

Y dyddiad mae digwyddiad yn cychwyn, cliciwch ar y blwch a defnyddiwch y calendr i ddewis y dyddiad cychwyn.

Dyddiad y daw i ben:

Y dyddiad y bydd y digwyddiad yn dod i ben, cliciwch ar y calendr i ddewis y dyddiad y daw'r digwyddiad i ben (gellir ei adael yn wag os yw'r dyddiad ar un diwrnod yn unig).

E-bost:

Cyfeiriad e-bost ar gyfer rhagor o fanylion (un cyfeiriad e-bost yn unig, neu ni fydd y ddolen yn gweithio).

Gwefan:

URL y gwefan neu unrhyw wefan sy'n rhoi manylion y digwyddiad. (un url neu ni fydd y ddolen yn gweithio).

Rhif ffôn:

Rhif ffôn am ragor o fanylion (un rhif ffôn yn unig os gwelwch yn dda).

Gwybodaeth ychwanegol:

Lanlwythwch ddogfen PDF sy'n cynnwys y manylion llawn, gallai hyn fod yn ddogfen testun syml neu daflen PDF llawn. Os nad oes gennych ddogfen PDF, mynnwch olwg ar ein "Canllaw i greu dogfennau PDFs" sydd newydd ei gyhoeddi am syniadau.


Tref agosaf:

Dewiswch y dref sydd agosaf at y man lle mae'r digwyddiad yn cael ei gynnal.

Man y cynhelir y digwyddiad:

Dyma'r lle bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal, peidiwch â rhoi enw tref, gan y byddwch yn dewis hyn o'r dewis "tref agosaf" isod.

Unwaith y byddwch wedi ei greu / diwygio, arbedwch y cynnwys ac ychwanegwch / newidiwch unrhyw ddigwyddiadau eraill.



Mae'r ddogfen hon wedi'i hysgrifennu gan arts-engine.org.uk er defnydd aelodau arts-engine.org.uk. Gellir rhannu'r ddogfen yn rhydd, fodd bynnag bydd yr hawlfraint a'r holl hawliau sy'n gysylltiedig â'r ddogfen hon yn parhau i fod yn eiddo i arts-engine.org.uk a Chyngor Sir Powys.

Mae unrhyw feddalwedd y gellir ei ddynodi o fewn y ddogfen hon yn amodol ar drwydded unigol y darparwr meddalwedd ac mae wedi'i rhoi'n ddiwyll. Mae unrhyw feddalwedd sy'n cael ei lawrlwytho yn cael ei wneud ar risg yr unigolyn sy'n lawrlwytho ac os bydd unrhyw broblemau'n codi yn sgil hyn ni all yr unigolyn sy'n lawrlwytho rhoi bai ar arts-engine.org.uk neu ei berchnogion, felly ni chynigir na awgrymir unrhyw warant.

Os ydych mewn unrhyw amheuaeth am unrhyw feddalwedd sydd wedi'i nodi yn y ddogfen hon, ein hawgrym yw i chi beidio â lawrlwytho'r meddalwedd dan sylw.

© arts-engine.org.uk 2011, pob hawl wedi'i gadw.

